Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cryfderau gwahanol ddulliau ymchwil wrth greu datganiadau am ddysgu

Gyda'r holl ddulliau hyn bydd angen i chi ystyried lefelau iaith a llythrennedd defnyddwyr a chanfod y ffordd fwyaf priodol o'u helpu i gyfleu eu profiadau dysgu.

Dull	Cryfderau	Pethau i'w hystyried
Cardiau ymateb Cardiau sylwadau Llyfrau sylwadau	▪ Ffordd hyblyg o gysylltu â defnyddwyr ▪ Gellir eu defnyddio i ysgogi ymateb yn gysylltiedig â Chanlyniad Dysgu Cyffredinol penodol neu gallant fod yn benagored ▪ Gellir eu defnyddio fel rhan o arddangosfa a gall pobl eraill gael eu hannog i'w darllen. Gall fod yn "hwyliog" a rhyngweithiol i ddenu sylw defnyddwyr (gweler Waliau graffiti) ▪ Nid oes angen llawer o waith gweinyddu gan fod defnyddwyr yn gallu cwblhau'r cerdyn neu ysgrifennu mewn llyfr sylwadau eu hunain ▪ Gallant annog defnyddwyr i ysgrifennu, tynnu lluniau neu gofnodi'u sylwadau am ddysgu yn eu ffordd eu hunain ac ystyried gwahanol lefelau gallu ▪ Gallant dargedu pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol neu mewn gwahanol rannau o safle yn dibynnu ar ble mae'r cardiau ymateb neu'r llyfrau sylwadau wedi'u lleoli	▪ Bydd gofyn cwestiynau mewn llyfr sylwadau neu ar gerdyn yn gwella ansawdd y sylwadau yn gysylltiedig â dysgu ▪ Darparu pennau a phapur o ansawdd i ddangos i ddefnyddwyr bod eu sylwadau'n cael eu trin o ddifri ▪ Rhoi cardiau sylwadau yn rhywle lle gall pob defnyddiwr eu gweld ac i'w hannog i rannu eu barn
Holiaduron	▪ Maent yn dda ar gyfer casglu tystiolaeth o ganlyniadau dysgu ar raddfa fawr lle mae angen gwybodaeth eang yn hytrach nag archwiliad dwfn ▪ Maent yn hyblyg a gellir eu defnyddio mewn amrywaieth o fformatau – ar y safle, trwy e-bost neu yn y post ▪ Gellir eu fframio o amgylch y GLOs i gasglu tystiolaeth o ganlyniadau dysgu ▪ Maent yn gallu cynnwys cwestiynau caeëdig neu ddewis lluosog i gasglu tystiolaeth eang o ddysgu ▪ Maent yn gallu bod yn benagored i gasglu sylwadau mwy cyffredinol gan ddefnyddwyr am eu dysgu ▪ Gellir eu defnyddio'n hyblyg – gallant fod yn holiaduron hunangwblhau neu rai a weinyddir gan aelod staff sy'n gallu helpu esbonio cwestiynau nad ydynt efallai yn syml i rai defnyddwyr ▪ Maent yn casglu gwybodaeth ddemograffig ac yn cymharu canlyniadau dysgu ar draws oedran / rhyw ▪ Mae ganddynt y potensial i gasglu gwybodaeth gan gyfranogwyr dros amser am eu profiadau dysgu	▪ Rhaid geirio cwestiynau yn ofalus i ystyried oedran, iaith a lefelau gallu'r grŵp targed ▪ Mae cynllun yr holiadur yn bwysig ac mae dyluniad da yn hanfodol ▪ Bod yn ymwybodol o 'orlwytho' yr holiadur – ydy'r dull hwn yn addas i'r defnyddwyr rydych yn ceisio eu cyrraedd? ▪ Gall fod yn anodd i reoli pwy sy'n cwblhau holiaduron hunangwblhau ▪ Gwneud yr holiaduron yn hylaw i osgoi diflasu defnyddwyr oherwydd hyd (gweledol) neu gwestiynau anodd am ddysgu ▪ Mae'n hanfodol datblygu sgiliau o ran defnyddio taenlenni i ddadansoddi gwybodaeth yn enwedig casglu holiaduron ar raddfa fawr

Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cryfderau gwahanol ddulliau ymchwil wrth greu datganiadau am ddysgu

Dull	Cryfderau	Pethau i'w hystyried
Cyfweliadau	▪ Gellir eu cynnal wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ▪ Maent yn gallu eich helpu i archwilio canlyniadau dysgu yn fwy manwl o amgylch y GLOs ▪ Wedi'u cynnal gan gymheiriad, efallai y byddant yn dda i ddod o hyd i ganlyniadau dysgu yn dilyn profiad dysgu cyffredin ▪ Wedi'u cynnal ar sail un i un, maent yn gallu darparu gwybodaeth dda am ddysgu, agweddau, teimladau, safbwyntiau ac ymddygiad ▪ Mae ganddynt y potensial i gasglu gwybodaeth gan gyfranogwyr dros amser am eu profiadau dysgu	▪ Canfod ffyrdd o wneud i'r cyfranogwyr deimlo'n gartrefol – mae angen iddynt deimlo'n gysurus am rannu eu profiadau â'r cyfwelydd ▪ Os yw iaith yn fater, defnyddio cyfieithydd neu gyfweliadau gan gymheiriaid lle gallai un unigolyn gyfieithu i'r llall ▪ Cynllunio sut y byddwch yn dadansoddi'r data o flaen llaw – gall cyfweliad gynhyrchu llawer o dystiolaeth a allai gymryd cryn amser i'w dadnsoddi oni bai bod y cyfweliad wedi'i strwythuro (yna efallai y bydd yr atebion yn fwy rhagweladwy)
Grwpiau ffocws	▪ Maent yn gallu casglu gwybodaeth fanwl gan gyfranogwyr am eu safbwyntiau a'u profiadau dysgu mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ▪ Gallent annog pobl i rannu eu hagweddau, eu credoau a'u profiadau yn fwy agored trwy ryngweithio grŵp ▪ Gellir eu strwythuro o amgylch GLOs i ganolbwyntio ar drafodaeth er bod profiad yn awgrymu y bydd trafodaeth ehangach ar ddysgu yn rhedeg yn well ▪ Maent yn ffordd dda o gasglu ac atgyfnerthu tystiolaeth o ddysgu gan grwpiau sy'n cymryd rhan mewn profiad dysgu ▪ Maent yn rhoi modd i chi gasglu gwahanol bersbectifau o'r un pwnc/profiad neu ar wahanol adegau os yw'r grwpiau ffocws yn cael eu cynnal mewn gwahanol gyfnodau mewn profiad dysgu ▪ Maent yn gallu cynnwys gweithgareddau a allai helpu cyfranogwyr i gyfleu eu profiadau dysgu mewn gwahanol ffyrdd	▪ Mae angen i'r hwylusydd fod yn fedrus i arwain y drafodaeth a hoelio sylw'r grŵp. Mae angen iddo/iddi sicrhau bod pawb yn teimlo'n gysurus am rannu eu profiadau a'u safbwyntiau'n gyfartal ▪ Sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod am y trefniadau ymarferol gan gynnwys lleoliad, mapiau, dodrefn a lluniaeth ▪ Efallai y bydd angen i chi dalu cyfranogwyr i fynychu grŵp ffocws neu ddarparu cymhelliad ▪ Efallai na fydd yn hawdd tynnu canlyniadau dysgu'r unigolyn o ganlyniadau dysgu'r grŵp ▪ Bydd angen i chi gymryd nodiadau (efallai y bydd angen ail lywydd i wneud hyn) neu recordio'r drafodaeth (Gweler y canllaw i sefydlu grŵp ffocws y gallwch ei lwytho i lawr i gael rhagor o arweiniad)

Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cryfderau gwahanol ddulliau ymchwil wrth greu datganiadau am ddysgu

Dull	Cryfderau	Pethau i'w hystyried
Waliau graffiti	▪ Maent yn rhyngweithiol gan eich bod yn gallu gwneud i sylwadau edrych yn ddeniadol fel rhan o arddangosfa – gall pobl ddarllen sylwadau pobl eraill ac efallai cael eu hannog i ychwanegu sylwadau eu hunain ▪ Maent yn gallu cynnwys un cwestiwn yn seiliedig ar y GLOs i sicrhau bod ymatebion pobl yn canolbwyntio ar ddysgu ▪ Gellir defnyddio nodiadau POST IT fel ffordd liwgar / rhad i gael pobl i rannu eu sylwadau	▪ Rhaid gosod sylwadau yn sownd i'r wal neu mae'n bosibl y byddant yn mynd ar goll ▪ Darparu blwch postio ar gyfer yr ymatebwyr sydd am gadw eu sylwadau'n ddienw
Lluniau	▪ Maent yn ddefnyddiol os yw sgiliau ysgrifennu'n gyfyngedig ac efallai eu bod yn fwy "hwyliog" neu apelgar ▪ Gellir eu defnyddio ar y cyd â sylwadau ysgrifenedig i gynorthwyo dadansoddi	▪ Mae'r rhain yn heriol i'w dehongli heb gwestiynau a chyflafareddu
Arsylwi	▪ Gall arsylwi weithio'n dda os yw cyfranogwyr yn siarad ar goedd am eu profiadau wrth i'r sylwedydd gerdded o gwmpas gyda hwy – ymweliad yng nghwmni sylwedydd	▪ Mae arsylwi heb esboniad yn dangos yr hyn mae pobl yn ei wneud ond nid pam maent yn ei wneud ac felly mae'n bosibl y bydd tystiolaeth o ganlyniadau dysgu'n gyfyngedig ▪ Efallai y bydd angen eu cyfuno â chyfweliadau neu holiaduron ▪ Os yw pobl yn gwybod eu bod yn cael eu harsylwi efallai y bydd yn cael effaith ar eu hymddygiad ▪ Os nad yw'r sylwedydd yn weladwy efallai y bydd yn gymhleth i ganfod dysgu o weithredoedd a lleferydd pobl
Fideo	Blwch/bwth fideo ▪ Gallai hwn gael ei ddefnyddio gydag un cwestiwn yn seiliedig ar y GLOs fel awgrym i gofnodi dysgu pobl ▪ Mae'n ddewis apelgar yn lle cardiau sylwadau traddodiadol – efallai ei fod yn fwy hwyliog ac apelgar i rai defnyddwyr nag ysgrifennu sylwadau ▪ Gallai fod yn arf pŵerus ar gyfer casglu tystiolaeth at ddibenion eiriolaeth	▪ Mae'n bosibl y bydd dadansoddi fideo yn cymryd cryn amser gyda gormod o ddeunydd e.e. o drafodaeth ▪ Mae angen ei olygu'n iawn os yw deunydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos canlyniadau dysgu ▪ Nid yw'n hawdd gosod hwn oni bai ei fod yn rhan o ddyluniad lle

Museums Libraries & Archives

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cryfderau gwahanol ddulliau ymchwil wrth greu datganiadau am ddysgu

Dull	Cryfderau	Pethau i'w hystyried
Chwarae rôl / actio	▪ Gall wahodd pobl i actio rôl er mwyn hwyluso trafodaeth am ddysgu. Gallai fod yn ffordd dda o gyflwyno profiadau dysgu cadarnhaol a negyddol neu weithredu fel ymarfer torri'r garw i ysgogi pobl trwy weithgaredd ▪ Gallai brocio cof pobl am brofiad dysgu trwy ofyn iddynt ei ailfyw	▪ Efallai y bydd rhai cyfranogwyr yn gyndyn o actio eu profiadau felly mae angen i chi gyflwyno'r syniad o chwarae rôl yn ofalus ▪ Mae angen llywydd medrus i gyflawni hyn
Ffotograffau a delweddau	▪ Gellir eu defnyddio i ysgogi trafodaeth am ganlyniadau dysgu mewn grŵp ffocws neu gyfweliad, fel cymorth cof neu i gynrychioli cysyniadau dysgu newydd i gyfranogwyr ▪ Gellir eu defnyddio gan gyfranogwyr i gyfleu eu profiadau dysgu'n greadigol ▪ Gellir eu defnyddio gyda swigod siarad mewn arddangosfa i gyfleu profiadau dysgu i eraill	▪ Efallai y bydd yn anodd dadansoddi os yw cyd-destun y ffotograff yn anhysbys
Gweithiau celf / cerfluniau a phethau a gynhyrchir o ymweliadau ag AALl	▪ Maent yn helpu unigolion i fynegi eu dysgu ▪ Gellir eu defnyddio ar y cyd â dulliau eraill e.e. cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr i gael y cyd-destun a helpu cyfleu'r dysgu	▪ O ran delweddau, efallai y bydd yn anodd eu dehongli a'u dadansoddi os yw'r cyd-destun yn anhysbys
Llythyrau, e-byst	▪ Gall llythyrau ac e-byst i amgueddfeydd, archifau a llyfgelloedd ddangos tystiolaeth o ddysgu	▪ Ffynhonnell neu ganlyniadau dysgu ad hoc nad oes modd eu rhagweld ▪ Efallai bydd dadansoddi yn cymryd cryn amser
Vignettes	Gallai *vignettes*/astudiaethau achos gael eu defnyddio fel ysgogiad i ▪ Gyflwyno gwahanol brofiadau dysgu i gyfranogwyr mewn cyfweliadau neu grwpiau ffocws ▪ Archwilio canfyddiadau, credoau a phrofiadau cyfranogwyr mewn perthynas â sefyllfa benodol ▪ Cael pobl i siarad ac i gyflwyno barn ehangach am ddysgu ▪ Cyflwyno'r GLOs fel arf ar gyfer dadansoddi – gan ddefnyddio'r dull vignette a phen aroleuo o ddadansoddi	▪ Mae angen dewis *vignettes* yn ofalus i sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu uniaethu â'r profiad dysgu ▪ Peidio â defnyddio *vignettes* ar wahân oherwydd efallai y byddant yn rhoi dim ond safbwyntiau cyfranogwyr am y profiad sydd ynddynt yn hytrach nag ystyried profiadau'r cyfranogwyr eu hunain